

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2013– 6:00 y h., 26 Hydref, 2013
Plas yn Dre, Y Bala

1. Adroddiad y Cadeirydd Croeso/Cadeirydd

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod.

Mynegodd ei falchder o weld bod y Clwb yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i'r aelodaeth ledled y wlad a sawl taith dramor hefyd. Diolchodd i Eryl Owain, yr Ysgrifennydd Gweithgareddau newydd, am ei waith yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn rhoi rhaglen weithgareddau mor amrywiol at ei gilydd a mynegodd ei werthfawrogiad o'r pythau gwybodaeth diddorol y mae Eryl yn eu gyrru yn rheolaidd am deithiau'r clwb.

Diolchodd hefyd i Iolo Roberts am ei ddiwydrwydd tawel a dibynadwy fel Ysgrifennydd Cyffredinol gydol y flwyddyn, ac am drefniadau'r cyfarfod cyffredinol. Yn yr un modd, roedd Gareth Roberts wedi gwneud gwaith clodwiw yn diweddarau'r cofrestr aelodaeth a bugeilio'r cyfrifon. Roedd angen diolch hefyd i Iolo ap Gwynn am ei ofal cyson o'r wefan, ac am ei gymorth yn ystod y flwyddyn yn ailwampio ei diwyg. Bu aelodau eraill y Pwyllgor yn ffyddlon i gyfarfodydd a pharod eu cyfraniad bob amser. Roedd y Clwb mewn dwylo da.

Roedd yn dal yn awyddus i weld y Pwyllgor a'r aelodau yn ymdrechu i sicrhau bod digon o bobl iau yn ymuno yn y gweithgareddau ac yn ymaelodi, er mwyn diogelu dyfodol y Clwb. Roedd hyn yn rhywbeth y byddai'n annog y Pwyllgor i roi sylw iddo eto yn ystod y flwyddyn i ddod.

Cafwyd trafodaeth am wahanol ffyrdd y gellid eu hystyried i ddenu pobl iau i ymuno a'r clwb. Roedd yna farn hefyd bod gan y Clwb aelodaeth sylweddol, a'i fod yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau, ac felly nad yw'r sefyllfa mor broblemus â hynny ar hyn o bryd.

2. Ymddiheuriadau :

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo ap Gwynn, Gwen Aaron, Dewi Hughes, a Clive a Rhiannon James

3. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2012

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Clwb a gynhaliwyd ar 17eg Tachwedd 2012 yng Ngwesty'r Royal Goat, Beddgelert fel rhai cywir.

Materion yn codi: Eitem 10 - ethol Is-Gadeirydd

Gan nad oedd enwebiad ar gyfer swydd Is-Gadeirydd y Clwb yn y cyfarfod llynedd, roedd y pwyllgor wedi ei awdurdodi y Pwyllgor i geisio llenwi'r swydd. Gofynnwyd i Richard Roberts ymgymryd â'r gwaith, ac roedd yn dda adrodd ei fod wedi cytuno. Cymeradwyodd y Cyfarfod hyn a diolch i Richard am ei barodrwydd i dderbyn y swydd.

4. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Adroddodd Iolo fod y Pwyllgor wedi cwrdd dair gwaith eleni, yn ystod penwythnos Rhyd Ddu (Ionawr) a dwywaith yn ardal Ddolgellau ym Mai a Medi. Un o'r prif faterion tan sylw yn ystod y flwyddyn oedd ail-ddylunio gwefan y clwb. Bu Ysgrifennydd y Wefan yn gweithio'n galed ar hyn mewn cydweithrediad ag arbenigwyr ac roedd ffrwyth y gwaith ar gael i'w weld gan yr aelodau bellach.

Adroddodd hefyd fod y Pwyllgor wedi penderfynu anfon holiadur profiad a sgiliau i'r aelodau a gwnaed hyn yn ystod gwanwyn a haf 2013. Pwrpas yr holiadur oedd ceisio creu darlun o ba sgiliau/profiad sydd gan aelodaeth y clwb a cheisio cael syniad o ba fath o weithgareddau y byddai'r aelodau yn hoffi gweld y clwb yn eu cynnig yn y rhaglen weithgareddau.

Derbyniwyd 81 o ymatebion allan o aelodaeth o 310 sef oddeutu 27% o'r aelodaeth Rhoddwyd cyflwyniad o brif gasgliadau'r holiadur:

- Mwyafrif yn datgan diddordeb mewn mynydda rhwydd neu gyda rhywfaint o her - angen rhaglen weithgareddau'n adlewyrchu hyn?
- Diddordeb sylweddol mewn teithiau tramor – ond cryn waith trefnu
- Canran sylweddol yn barod i helpu i arwain teithiau, rhai yn fodlon gwneud gyda mentor
- Diddordeb mewn cael sesiynau blasu mewn gwahanol weithgareddau ac aelodau wedi datgan parodrwydd i helpu gyda hyn - ffordd i ddenu aelodau newydd hefyd?
- Diddordeb mewn cyrsiau – map a chwmpawd, arweinydd mynydd, cymorth cyntaf - angen chwilio am ffynonellau allanol i helpu i'w darparu?

Yn y drafodaeth am hyn pwysleisiwyd ei bod yn bwysig fod y Clwb yn parhau i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a fydd gyda'i gilydd at ddant pawb.

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Adroddodd mai cyfrifoldeb sy'n cael ei rannu yw'r cyfrifoldeb o drefnu gweithgareddau'r Clwb a diolchodd i Dewi Hughes, trefnydd teithiau'r de, Haf Meredydd trefnydd teithiau dydd Mercher, ac Arwel Roberts sy'n cydlynu'r dringo. Mae eu cyfraniad hwy i sicrhau amrywiaeth yn rhaglen y Clwb yn un sylweddol a chwbl hanfodol.

Yn ogystal â hwy, roedd o leiaf deugain wedi arwain neu drefnu taith neu weithgaredd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhif calonogol iawn sy'n dangos bod gennym aelodau brwdfrydig sy'n barod i ysgwyddo cyfrifoldeb. Un ystadegyn a dynnodd sylw ato yw mai dim ond saith o'r deugain arweinydd oedd yn fenywod. Diolch i'r arweinwyr oll am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad.

Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd 59 o weithgareddau swyddogol – 28 o deithiau cerdded dydd Sadwrn yn y gogledd, 15 o deithiau dydd Mercher, 10 o deithiau yn y de, un o feicio mynydd a phum sesiwn ddringo – er i un o'r rheiny, oherwydd glaw trwm, newid i fod yn ogofeuo! O ran y teithiau cerdded, mae adroddiadau ar y wefan yn dangos bod, ar gyfartaledd, dros 13 yn dod ar y teithiau Sadwrn a bron i 19 ar y teithiau dydd Mercher.

Mae'r adroddiadau ar y wefan yn werthfawr iawn o ran bod yn gofnod hanesyddol; maent yn dangos i'r aelodau nad ydynt yn cerdded yn aml ac i'r cyhoedd beth mae'r Clwb yn ei wneud a hefyd, wrth gwrs, mae'n braf gallu edrych yn ôl drwy'r rhestr a dwyn i gof ddyddiau difyr ar y mynydd. Roedd yn annog pob trefnydd taith i lunio adroddiad ac anfon llun neu ddau.

Yn ogystal â'r teithiau diwrnod, cafwyd sawl gweithgaredd preswyl, gan gynnwys:

Penwythnos yn Rhyd-ddu: 4 – 6 Ionawr - llwyddiannus iawn unwaith eto; diolch i lolo Roberts am drefnu, ac i Morfudd a Cemlyn am gydlynu'r teithiau.

Yr Alban: 9- 16 Chwefror gan aros y tro hwn yn Roybridge gyda rhyw ddau ddwsin yn mwynhau wythnos egniol a chael ambell gyfle i wisgo'r cramponau er nad oedd llawer o eira. Diolch i Maldwyn am drefnu.

Mynyddoedd yr Atlas: Rhys Dafis yn manteisio ar ei brofiad a'i gysylltiadau i drefnu wythnos dramor ddiddorol a llwyddiannus iawn ym mis Mawrth – diolch Rhys.

Penwythnos Penfro: 17 – 19 Mai - diolch i Bruce Lane am gydlynu'r trefniadau lletya a threfnu bod amrywiaeth o deithiau cerdded a beicio a sicrhau tywydd braf. Llawer o'r gogledd yno felly cyfle inni brofi ein bod yn Glwb cenedlaethol go iawn!

Pedol Cwm Pennant: taith deuddydd (25 – 26 Mai) o amgylch y cwm hyfryd hwn yn cynnwys noson o wersylla gwyllt, gyda diolch i Morfudd am drefnu.

Penwythnos yn Ambleside: 27 - 19 Medi – buom yn ffodus dros ben i fwynhau deuddydd o dywydd gwych a'r 28 ddaeth i Ardal y Llynnoedd yn mwynhau cerdded, beicio a sgrialu.

Hefyd mae rhai aelodau yn manteisio ar rwydwaith cysylltiadau'r Clwb i drefnu nifer o ddigwyddiadau anffurfiol, rhai ohonynt yn drefniadau munud olaf fel mae amgylchiadau a thywydd yn caniatáu. Gall y Fforwm fod yn gyfrwng effeithiol i hybu'r math yma o weithgaredd ac mae'n ddatblygiad i'w groesawu, yn arbennig efallai o ran gweithgareddau mwy arbenigol megis dringo.

Diolchodd Eryl i'r aelodau am ymddiried ynddo gyda'r gwaith diddorol o drefnu gweithgareddau ac i'r Pwyllgor am eu cyngor a'u harweiniad – ac anogodd bawb i barhau i fod yn barod i awgrymu teithiau ac i gynnig arwain!

6. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Yn anffodus nid oedd lolo ap Gwynn yn gallu bod yn bresennol ond fe nodwyd fod ffigurau defnyddio'r wefan yn debyg i'r llynedd (sef yn eithaf boddhaol). Mae tudalen FaceBook hefyd yn cael dipyn o ymweliadau, gyda chyrhaeddiad y negeseuon yn rhai cannoedd (cyfrwng da i genhadu, ac i gael pobl i'n gwefan, o leiaf). Nid pawb sy'n cofio anfon adroddiadau – ond diolch i'r ffyddlon rai. Mae'r adroddiadau yn bwysig fel y gall darpar aelodau weld beth mae'r Clwb yn ei wneud. Mae dipyn o amser yn mynd ar hyn o bryd i ailwampio'r wefan.

7. Adroddiad y Trysorydd.

Adroddwyd bod 320 o aelodau. Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar gyfer 2012-2013 (am gyfnod o 11 mis gan fod y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal yn gynt). Adroddwyd bod sefyllfa ariannol y Clwb yn iach a bod y cyfrifon yn dangos bod swm o £8,111.11 yn y banc.

8. Swyddogion y Clwb

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2014:

Trysorydd : Gareth E Roberts

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : lolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Eryl Owain

Ysgrifennydd y Wefan : lolo ap Gwynn

9. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2014

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth na chafwyd unrhyw enwebiadau ar gyfer gwasanaethu ar y pwyllgor yn 2014. Yn sgil hynny, rhoddwyd cymeradwyaeth y Cyfarfod i aelodau presennol y Pwyllgor wasanaethu am flwyddyn arall, a hefyd, rhoddwyd awdurdod i'r Pwyllgor gyfethol aelod(au) ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

Felly cadarnhawyd y canlynol i wasanaethu ar y Pwyllgor yn 2014:

Rhys Dafis Richard Roberts	Cadeirydd Is-Gadeirydd
Gareth E Roberts Eryl Owain Iolo ap Gwynn Iolo Roberts	Trysorydd Ysgrifennydd Gweithgareddau Ysgrifennydd y Wefan Ysgrifennydd Cyffredinol
Anita Daimond Dewi Hughes Sioned Ll Jones John Parry Sian Shakespear Mark W Williams	

10. Archwilydd

Penodwyd Raymond Griffiths fel **Archwilydd**.

11. Unrhyw Fater Arall

Ni ddaeth unrhyw gais i law i drafod pwnc penodol.

12. Trafodaeth Agored

Cyfeiriodd Siân Shakespear at y ddarlith flynyddol a gynhaliwyd am y tro cyntaf eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych ac ar ran y Clwb diolchodd i John Parry am ei thraddodi. Nododd fod y Pwyllgor yn awyddus i gynnal darlith eto ac y bydd yn rhoi ystyriaeth i hyn yn y cyfarfod nesaf.

Cyfeiriodd hefyd at gynhadledd a oedd i'w chynnal yng Nghanolfan yr Urdd, Glan Llyn ar ddydd Sadwrn 23ain Tachwedd 2013 o dan y pennawd "Mynyddoedd Pawb". Roedd y gynhadledd yn barhad o ymdrechion Mari Gwent (merch Llew Gwent) i adeiladu ar waith Llew yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes mynydda a thu hwnt. Roedd y pwyllgor a'r Clwb eisoes wedi mynegi cefnogaeth i ymdrechion Mari.

Amcanion y gynhadledd oedd:

- Diogelu enwau a nodweddion Cymraeg y mynyddoedd a'r tir
- Sicrhau'r parch dyledus i enwau Cymraeg gan ymwelwyr ac eraill
- Cyflwyno'r cyfoeth o hanes a chwedloniaeth sydd yn ein henwau lleoedd

Nododd bod nifer o aelodau'r clwb yn bwriadu i mynychu'r gynhadledd

Mynegodd Haf ei phryderon yn dilyn mynychu cwrs diweddar ym Mhlas y Brenin ynglŷn â'r diffyg parch a deimlodd yno tuag at y Gymraeg, ac at y ffaith nad oedd unrhyw flas am natur unigryw Cymru o safbwynt ei Chymreictod yn cael ei gyflwyno i'r bobl oedd yn mynychu cyrsiau yno. Roedd hynny yn rhywbeth yr oedd wedi sylwi arno hefyd mewn nifer o wyliau cerdded sy'n cael eu cynnal drwy'r sir. Gofynnodd a oedd hyn yn rhywbeth y gallai'r clwb roi sylw iddo.

Llongyfarchiadau

I gloi'r Cyfarfod, ar ran yr aelodau, llongyfarchodd y Cadeirydd un o aelodau'r Clwb, Siân Williams, ar gwblhau Marathon Eryri yn gynharach yn ystod y dydd.

Yn uchafbwynt y noson, ar ôl gwledda, cafwyd cyflwyniad gan Alun (Fachwen) Hughes am ei waith yn ffilmio gweithgareddau dringo. Mewn dull cartrefol, eglurodd sut y daeth i'r maes yma, cyn trafod yn arbennig ei brofiadau yn ffilmio'r rhaglen "Defaid a Dringo", ffilm am y dringwr ifanc dawnus o Fethesda, Ioan Doyle, sy'n ffermio wrth ei waith o ddydd i ddydd. Roedd dweud yr hanes, ynghyd â'r pytiau ffilm, yn rhoi cipolwg treiddgar ar weledigaeth a dyfalbarhad Alun fel cynhyrchydd a dyn camera. Da oedd clywed bod y ffilm wedi denu diddordeb rhyngwladol a derbyn nifer o enwebiadau i'w gwobrwyo. Ar ran yr aelodau diolchodd Rhys i Alun am gyflwyniad hynod ddifyr.

Cymerodd y cyfle hefyd i ddymuno'n dda i'r aelodau hynny o'r Clwb oedd yn teithio i'r Himalayas yn Nepal yr wythnos ganlynol, i ddringo Copa Mera.